O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 1401 (Cy. 168)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Maerdy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed	*3 Mehefin 2011*
Yn dod i rym	*13 Mehefin 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain - Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi'u bodloni y dylid gosod cyfyngiadau ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Mehefin 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Maerdy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 09:00 o'r gloch ar 13 Mehefin 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn derfynol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A5 ym Maerdy ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn tua'r gorllewin o bwynt 100 metr i'r dwyrain o Bont Maerdy hyd at bwynt canol ei chyffordd a'r ffordd a elwir Carreg y Big sy'n arwain i Ddol-y-Pennau.